

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 22ain Chwefror, 2024 at
2.00 pm

CYNGHORWYR Andrew Blackmore, (Cadeirydd)
YN Cynghorydd Sirol Tony Easson, (Is-Gadeirydd)
BRESENNOL:

C. Prosser, M. Veale, R. Guest

Cynghorydd Sirol: Sara Burch, John Crook, David Jones,
Phil Murphy, Peter Strong and Ann Webb

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Annette Evans	Rheolwr Cysylltiadau Cwsmeriaid
Peter Davies	Prif Swyddog, Adnoddau
Jan Furtek	Audit Manager
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democraidaidd
Richard Jones	Rheolwr Perfformiad a Dirnadaeth Data
Jonathan Davies	Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Rachel Freitag	Swyddog Archwilio Cymru
Emma Tapper	Governance & Assurance Officer
Kathy Buckley	Chief Information Security Officer
Hannah Carter	Dadansoddwr Perfformiad
Daniel Francis	Accountant
Sian Hayward	Rheolwr Digidol a Thechnegol

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol Malcolm Lane

1. Datganiadau o Fuddiant

Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

3. Nodi'r rhestr weithredu o'r cyfarfod blaenorol.

Nodwyd y rhestr o gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf.

<https://www.youtube.com/live/g0896V1LcSY?feature=shared&t=80>

1. Capasiti'r Tîm Cyllid: AR AGOR
2. Strategaeth Pobl: AR AGOR
3. Adroddiad Cwynion Awdurdod Cyfan: AR GAU
4. Rhyddid Gwybodaeth, Diogelu Data a Cheisiadau Gwrthrych Data am Wybodaeth:

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 22ain Chwefror, 2024 at 2.00 pm

Polisiau rheoli risg corfforaethol: AR AGOR

5. Datganiad Cyfrifon – cronfeydd ymddiriedolaeth elusennol: AR GAU

4. Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Fynwy

Ystyriwyd eitemau 5 a 6 ar yr un pryd.

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Ddatganiad o Gyfrifon Cyngor Sir Fynwy a chyflwynodd Rheolwr Archwilio Ariannol Archwilio Cymru Adroddiad Archwilio Cyfrifon (Archwiliad Cymru) ISA 260. Wedi cyflwyno'r adroddiadau, gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i ofyn cwestiynau:

<https://www.youtube.com/live/g0896V1LcSY?feature=shared&t=266>

Cymeradwywyd argymhellion yr adroddiad (yn amodol ar fân newid), a gofynnwyd i'r Cadeirydd lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth

- i) Bod y pwyllgor yn nodi bod y cyfrifon wedi'u diwygio ers cyhoeddi'r fersiwn drafft i adlewyrchu canlyniadau'r broses archwilio allanol, ac fel y nodir yn adroddiad Archwilio Cyfrifon ISA260 Archwilio Cymru a ddangosir yn Atodiad 2.
- ii) Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit yn cymeradwyo datganiad cyfrifon terfynol archwiliedig Cyngor Sir Fynwy ar gyfer 2022/23 fel y dangosir yn Atodiad 1.

CAM GWEITHREDU: Ychwanegu "Diweddariad ar 3 argymhelliad ISA260" i'r Cynllun Gwaith i'r Dyfodol pan fydd y cyfrifon drafft yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor.

5. Adroddiad Archwilio Cyfrifon (Archwilio Cymru)

Ystyriwyd eitemau 5 a 6 ar yr un pryd – gweler y cofnod uchod.

6. Adroddiad Trysorlys Ch3 23/24

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Adroddiad Trysorlys Chwarter 3 2023/24. Wedi cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau a sylwadau:

<https://www.youtube.com/live/g0896V1LcSY?feature=shared&t=2039>

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad:

Adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit weithgareddau rheoli'r Trysorlys a'r perfformiad a gyflawnwyd yn ystod trydydd chwarter 2023/24 fel rhan o'i gyfrifoldeb dirprwyedig i graffu ar bolisi, strategaeth a gweithgaredd y Trysorlys ar ran y Cyngor.

7. Datganiad ar gadernid y broses gyllideb a digonolrwydd cronfeydd wrth gefn.

Nododd y Dirprwy Brif Weithredwr nad oedd yr adroddiad ar gael ac eglurodd na fu'n bosibl oherwydd bod cynigion cyllidebol terfynol y Cyngor wedi'u cwblhau'n hwyr a bod barn y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn seiliedig arnynt. Croesawodd y Pwyllgor y cyfle i adolygu ei ystyriaeth o'r pwyntiau hyn yn y dyfodol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a chraffu ar Strategaeth a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor. Bydd y Cadeirydd nawr yn gweithio gyda swyddogion i sicrhau bod yna ymgysylltu amserol â'r Pwyllgor.

<https://www.youtube.com/live/g0896V1LcSY?si=Talw1G6EMbKSz09j&t=2808>

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 22ain Chwefror, 2024 at 2.00 pm

8. Strategaeth Cyfalaf, Strategaeth Trysorlys ac adroddiad diwygio MRP

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y Strategaeth Gyfalaf, Strategaeth y Trysorlys a'r Adroddiad Darpariaeth MRP. Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y Pwyllgor:

<https://www.youtube.com/live/q0896V1LcSY?si=wZT5FmM7TrrQxs9F&t=3189>

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad:

- i) Craffodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit ar y newid arfaethedig i bolisi MRP ar gyfer 2023/24 fel y dangosir yn Atodiad 1 a chymeradwydd y cynnig i'w ddsbarthu ymlaen a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn.
- ii) Rhoddodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit ystyriaeth i'r strategaeth Gyfalaf ddrafft ar gyfer 2024/25 fel y'i gwelwyd yn Atodiad 2 a'i chymeradwyo i'w chylchredeg ymlaen a'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn.
- iii) Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit wedi ystyried y strategaeth rheoli Trysorlys ddrafft ar gyfer 2024/25 fel y'i gwelir yn Atodiad 3 a'i chymeradwyo i'w chylchredeg ymlaen a'i chymeradwyo gan y Cyngor llawn. Mae hyn yn cynnwys y:

- Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw 2024/25, a;
- Strategaethau Buddsoddi a Benthycu 2024/25

Nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit y gofyniad i adolygu gweithgareddau rheolaeth trysorlys y Cyngor ar ran y Cyngor drwy barhau i dderbyn diweddariadau chwarterol ar weithgareddau rheoli'r trysorlys yn ystod 2024/25 yn unol â gofynion Cod Ymarfer Trysorlys CIPFA wedi'i ddiweddarau.

9. Hunanasesiad o Reolaeth Perfformiad

Cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad a Deallusrwydd Data, Dadansoddwr Perfformiad a Phrif Swyddog - Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau yr Adroddiad Hunanasesiad o Reoli Perfformiad. Gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i rannu sylwadau a gofyn cwestiynau:

<https://www.youtube.com/live/q0896V1LcSY?si=uDz988-3DTp6kYNi&t=5371>

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad:

Defnyddiodd Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit ydiweddariad a ddarparwyd i hysbysu eu dealltwriaeth o effeithiolrwydd gweithrediad trefniadau rheoli perfformiad yr Awdurdod ac i nodi unrhyw feysydd lle maent yn teimlo bod angen cymryd camau neu ddarparu gwybodaeth bellach.

10. Adroddiad Cwynion Awdurdod Cyfan

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Pobl, Perfformiad a Phartneriaethau a'r Rheolwr Cysylltiadau Cwsmeriaid yr Adroddiad Cwynion Awdurdod Cyfan. Wedi cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd cwestiynau gan y Pwyllgor.

<https://www.youtube.com/live/q0896V1LcSY?si=kU3AoNTmpDTgTCw6&t=5818>

Gan gyfeirio at argymhellion yr adroddiad, defnyddiodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit yr adroddiad, sy'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 31ain Rhagfyr 2023, i geisio sicrwydd ynghylch

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 22ain Chwefror, 2024 at 2.00 pm

effeithiolrwydd prosesau'r Awdurdod ar gyfer ymdrin â chwynion a chanmoliaeth ac i wneud argymhellion lle mae'n nodi unrhyw ddiffygion. .

11. Adroddiad Chwarterol Archwilio Mewnol

Cyflwynodd y Prif Archwilydd Mewnol Adroddiad Chwarterol yr Archwiliad Mewnol. Wedi cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor:

<https://www.youtube.com/live/g0896V1LcSY?si=VkdH7xs3gXy-Vb1p&t=7094>

Yn unol ag argymhellion yr adroddiad:

Ystyriodd a nododd y Pwyllgor y barnau archwilio a gyhoeddwyd.

Nododd y Pwyllgor, os yw Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit yn pryderu am unrhyw un o'r safbwyntiau archwilio a gyhoeddwyd, y dylid ystyried galw'r rheolwr gweithredol a'r Pennaeth Gwasanaeth i mewn i gyfarfod yn y dyfodol neu i uwchgyfeirio eu pryderon at y Prif Swyddog ac i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol. Ni thwybiwyd bod angen ei gwneud yn ofynnol i swyddogion fynychu cyfarfod ar hyn o bryd.

Nododd y Pwyllgor y cynnydd a wnaed gan yr Adran tuag at gyflawni Cynllun Archwilio Gweithredol 2023/24 a dangosyddion perfformiad yr Adran ar y cam 9 mis o'r flwyddyn ariannol sydd ar hyn o bryd yn unol â'r targed wedi'i broffilio.

12. Rhaglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit

Nodwyd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Ni fydd yr adroddiadau canlynol a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf yn barod ac felly cânt eu gohirio tan y cyfarfod canlynol:

- Adolygiad Data Perfformiad Archwilio Cymru
- Adolygiad Digidol Archwilio Cymru

https://www.youtube.com/live/g0896V1LcSY?si=uvqbnzAZ8xcWDJH_&t=7798

Yr eitem ganlynol i'w hychwanegu at y Rhaglen Waith:

"Diweddariad ar y 3 argymhelliad ISA260" (pan fydd y Pwyllgor yn ystyried y cyfrifon drafft.)

13. Dyddiadau drafft ar gyfer 2024/25 (amodol ar gymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn ar 29 Chwefror 2024)

Nodwyd y dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2024/25.

<https://www.youtube.com/live/g0896V1LcSY?si=aECUZfJborj5nZ8P&t=7818>

14. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

**Minutes of the meeting of Pwyllgor Llywodraethu ac Awdit held
at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Iau, 22ain Chwefror, 2024 at
2.00 pm**

<https://www.youtube.com/live/q0896V1LcSY?si=nEO4wHPGgDuDRm4-&t=7872>

15. Cyfarfod Nesaf: 14eg Mawrth 2024

16. Seiberddiogelwch

Cyflwynodd y Pennaeth Diogelwch Gwybodaeth a Thechnoleg a'r Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth adroddiad ar Seiberddiogelwch. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau ar ôl cyflwyno'r adroddiad.

Cwestiynau a gwmpesir:

- Digon o adnoddau i ddiogelu'r Awdurdod yn ddigonol
- Ystod yr hyfforddiant a threfniadau ar gyfer partneriaid a chontractwyr

Gorffennodd y cyfarfod am 4.28 pm